**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**DEDDF PRIFFYRDD 1980 ADRAN 90C**

# Hysbysiad o Gynnig i Osod Twmpathau Ffyrdd ar Leaches Lane, Mancot, Sir y Fflint

Rhoddir **HYSBYSIAD** drwy hyn gan Gyngor Sir y Fflint yn unol ag Adran 90C Deddf Priffyrdd 1980, ei fod yn bwriadu gosod Clustogau Arafu, yn unol ag Adran 90A y Ddeddf honno, ar y ffordd a nodir yn Atodlen yr Hysbysiad hwn.

Mae'r cynnig hwn yn cynnwys cael gwared ar dwmpath ffordd fflat sydd o flaen Rhifau 11/13 Leaches Lane, a rhoi Clustogau Arafu yn y lleoliad a ddangosir yn Atodlen yr Hysbysiad hwn, a bydd yn cydymffurfio ym mhob ffordd â darpariaethau Rheoliadau Priffyrdd (Twmpathau Ffyrdd) 1999.

**Rheswm dros y Cynnig:** Mae'r nodwedd ostegu traffig bresennol yn Leaches Lane wedi bod yn un o'r ffactorau tu ôl i'r problemau cyson a geir gyda llifogydd a draenio. Mae hyn wedi arwain at heriau cynnal a chadw parhaus, effeithiau andwyol ar ddiogelwch y ffordd, a pheryglon posib i ddefnyddwyr y ffordd, yn enwedig yn ystod ac ar ôl cyfnodau o law trwm. Bydd y twmpath ffordd fflat presennol yn cael ei dynnu a bydd Clustogau Arafu yn cael eu gosod yn ei le, a fydd yn sicrhau cydymffurfiad â safonau diogelwch ffordd, yn gwella effeithlonrwydd draenio, ac yn cynnal effeithiolrwydd y mesurau gostegu traffig heb waethygu'r problemau llifogydd.

Mae copi o'r hysbysiad hwn a chynllun yn dangos lleoliad arfaethedig y Twmpathau Ffyrdd ar gael i'w gweld yn ystod oriau agor arferol y swyddfa yn Sir y Fflint yn Cysylltu, Wepre Drive, Cei Connah, CH5 4HA. Bydd y dogfennau hefyd ar gael i'w gweld ar ein gwefan, sef www.siryfflint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoleiddio Traffig, neu gallwch wneud cais am gopi o'r dogfennau drwy anfon e-bost at GwasanaethauStryd@siryfflint.gov.uk neu ffonio 01352 701234.

Dylid anfon unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig uchod i'r unigolyn isod yn y cyfeiriad isod (gan ddyfynnu cyfeirnod SS/TC/123/LS/LLS) erbyn 28 Chwefror 2025.

## ATODLEN

## LEACHES LANE, MANCOT

**Clustogau Arafu Traffig** 2.0m o hyd, 1.65m o led a 65mm o uchder; 1 pâr o glustogau arafu wedi'u lleoli ar bwynt sy'n cydffinio â blaen Rhifau 11/13 Leaches Lane.

Katie Wilby
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NR

Dyddiedig y 7$^{fed}$ diwrnod o fis Chwefror 2025




CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Katie Wilby

Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).

County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

Streetscene

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.

DRAWN BY: KJ

CHECKED BY: IB

SCALE: NTS

NAT. GRID REF: N/A

| PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION |
|---|---|---|

| AMENDMENTS: | DATE |
|---|---|
| | |

# Leaches Lane Mancot

Bwriad i dynnu bwrdd wedi'i godi a gosod palmentydd cyffyrddol a chlustogau cyflymder
Proposed raised table removal and installation of tactile pavings and speed cushions
(Sheet 1 of 1)

DRAWING NUMBER: HT/25/LLS | 101 | P1